

Dyma gyflwyniad byr i'r cymorth ariannol y gallai rhieni ei gael:

- Pob/rhiant newydd
  - Gweithiwr rhianta
  - Myfyrwyr
  - Rhieni incwm isel a rhieni NEET
- (Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro**  
01446 704704

[fis@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:fis@valeofglamorgan.gov.uk)

[www.valeofglamorgan.gov.uk/ggd](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/ggd)

Facebook [@VOGFIS](https://www.facebook.com/VOGFIS)

Twitter [@VALEFIS](https://twitter.com/VALEFIS)

## **Pob/rhiant newydd**

### **Budd-dal Plant**

Rydych yn cael Budd-dal Plant os ydych yn gyfrifol am fagu plentyn sydd o dan 16 oed neu o dan 20 oed (os yw'n aros mewn addysg neu hyfforddiant cymeradwy). Dim ond un person all gael Budd-dal Plant i blentyn. Mae'n cael ei dalu bob 4 wythnos ac nid oes terfyn ar faint o blant y gallwch hawlio amdanynt.

Drwy hawlio Budd-dal Plant gallwch gael credydau Yswiriant Gwladol sy'n cyfrif tuag at eich Pensiwn y Wladwriaeth, bydd eich plentyn yn cael rhif Yswiriant Gwladol yn awtomatig pan fydd yn 16 oed. Os byddwch yn dewis peidio â chael taliadau Budd-dal Plant, dylech ddal i lenwi ac anfon y ffurflen hawlio.

Os ydych chi neu'ch partner yn ennill dros £50,000 efallai y bydd yn rhaid i chi ad-dalu rhywfaint o'ch Budd-dal Plant mewn treth os yw eich incwm unigol (neu incwm eich partner) dros £50,000.

Gallwch wneud cais i gael Budd-dal Plant cyn gynted ag y byddwch wedi cofrestru genedigaeth eich plentyn, neu pan fydd wedi dod i fyw gyda chi.

I ddarllen mwy a chael gwybod sut i wneud cais ewch i: <https://www.gov.uk/child-benefit>

### **Tâl Mamolaeth**

Mae **Tâl Mamolaeth Statudol** (TMS) yn cael ei dalu am hyd at 39 wythnos. Rydych chi'n cael: 90% o'ch enillion wythnosol cyfartalog (cyn treth) am y 6 wythnos gyntaf a £151.20 neu 90% o'ch enillion wythnosol cyfartalog (pa un bynnag sy'n is) am y 33 wythnos nesaf. Telir TMS yn yr un modd â'ch cyflogau (er enghraifft yn fisol neu'n wythnosol). Bydd Treth ac Yswiriant Gwladol yn cael eu didynnu.

Defnyddiwch y gyfrifiannell tâl mamolaeth i weithio allan faint allech chi ei gael a chael rhagor o wybodaeth yma: <https://www.gov.uk/maternity-pay-leave>

Mwy o wybodaeth: <https://www.moneyadvice.service.org.uk/en/articles/maternity-pay-and-leave#>

Os na allwch gael Tâl Mamolaeth Statudol, gallech fod yn gymwys i fudd-dal arall o'r enw **Lwfans Mamolaeth**. Mae Lwfans Mamolaeth yn fudd-dal a delir gan y llywodraeth i ferched beichiog nad ydynt yn gymwys am **Dâl Mamolaeth Statudol**.

I weld a ydych yn gymwys am Lwfans Mamolaeth, [defnyddiwch gyfrifiannell GOV.UK](https://www.gov.uk)

Mwy o wybodaeth: <https://www.moneyadvice.service.org.uk/en/articles/maternity-allowance>

### **Tâl Tadolaeth**

Absenoldeb Tadolaeth yw pan fyddwch yn cymryd amser i ffwrdd oherwydd bod eich partner yn cael babi, yn mabwysiadu plentyn neu'n cael babi drwy drefniant amgylchynu ac efallai y byddwch yn [gymwys](https://www.gov.uk) i gael:

*Nid yw'r ddogfen hon wedi'i chynllunio fel rhestr gynhwysfawr o gymorth ariannol, ni ellir ein dal yn gyfrifol am gywirdeb y wybodaeth hon na chynnwys dolenni allanol. Cynghorir y rhai sy'n ei ddefnyddio i gymryd camau rhesymol i ystyried eu cynnwys cyn gweithredu arno. Lluniwyd y ddogfen ym mis Rhagfyr 2020.*

- 1 neu 2 wythnos o Absenoldeb Tadolaeth â thâl
- Tâl Tadolaeth
- [Absenoldeb a Thâl Rhiant a Rennir](#)

Cyfradd wythnosol statudol Tâl Tadolaeth yw £151.20, neu 90% o'ch enillion wythnosol cyfartalog (pa un bynnag sy'n is). Telir unrhyw arian a gewch yn yr un modd â'ch cyflogau, er enghraifft yn fisol neu'n wythnosol. Bydd Treth ac Yswiriant Gwladol yn cael eu didynnu.

Fel arfer, telir yr arian tra byddwch ar wyliau. Rhaid i'ch cyflogwr gadarnhau'r dyddiadau dechrau a gorffen ar gyfer eich Tâl Tadolaeth pan fyddwch yn ei hawlio. I newid y dyddiad dechrau mae'n rhaid i chi roi 28 diwrnod o rybudd i'ch cyflogwr. Gallech gael mwy o dâl os oes gan eich cyflogwr gynllun tadolaeth cwmni; ni allant gynnig llai na'r symiau statudol i chi. I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

<https://www.gov.uk/paternity-pay-leave>

### **Tâl Rhiant a Rennir**

Efallai y byddwch chi a'ch partner yn gallu cael Absenoldeb Rhiant a Rennir (ARhR) a Thâl Rhiant a Rennir Statudol (TRhRS) os ydych yn cael babi neu'n mabwysiadu plentyn. Gallwch rannu hyd at 50 wythnos o wyliau a hyd at 37 wythnos o dâl rhyngoch. Mae angen i chi rannu'r tâl a'r absenoldeb yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i'ch plentyn gael ei eni neu ei roi gyda'ch teulu.

Gallwch ddefnyddio ARhR i gymryd absenoldeb mewn blociau wedi'u gwahanu gan gyfnodau o waith, neu gymryd y cyfan ar yr un adeg. Gallwch hefyd ddewis bod i ffwrdd o'r gwaith gyda'ch gilydd neu i drefnu'r absenoldeb a'r tâl fesul cyfnod. Er mwyn cael ARhR a TRhRS, mae angen i chi a'ch partner fodloni'r meini prawf cymhwysedd - mae meini prawf gwahanol ar gyfer rhieni biolegol a rhieni mabwysiadol a rhoi rhybudd i'ch cyflogwr.

Telir TRhRS ar gyfradd o £151.20 yr wythnos neu 90% o'ch enillion wythnosol cyfartalog, pa un bynnag sy'n is. Mae hyn yr un fath â Thâl Mamolaeth Statudol (TMS) ac eithrio bod TMS yn cael ei dalu yn ystod y 6 wythnos gyntaf ar 90% o beth bynnag a enillwch (heb uchafswm).

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <https://www.gov.uk/shared-parental-leave-and-pay>

---

## **Rhieni sy'n gweithio**

Dysgwch ba gymorth y gallech ei gael gyda chostau gofal plant:

Defnyddiwch y gyfrifiannell hon i ddydsu faint allech chi ei gael tuag at [ofal plant cymeradwy](#):  
<https://www.gov.uk/childcare-calculator>

### **Y Cynllun Gofal Plant Di-dreth**

Gallwch gael hyd at £500 bob 3 mis (hyd at £2,000 y flwyddyn) am bob un o'ch plant i helpu â chostau gofal plant. Mae hyn yn codi i £1,000 bob 3 mis os yw plentyn yn anabl (hyd at £4,000 y flwyddyn).

Os cewch Ofal Plant Di-dreth, byddwch yn sefydlu cyfrif gofal plant ar-lein ar gyfer eich plentyn. Am bob £8 a dalwch i mewn i'r cyfrif hwn, bydd y llywodraeth yn talu £2 i'w ddefnyddio i dalu eich darparwr. Gallwch gael Gofal Plant Di-dreth ar yr un pryd â 30 awr o ofal plant am ddim os ydych yn gymwys i gael y ddau.

Fel arfer gallwch gael Gofal Plant Di-dreth os ydych chi (a'ch partner, os oes gennych un) mewn gwaith, ar absenoldeb salwch neu wyliau blynyddol, ar absenoldeb rhiant, mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu a rennir. Os ydych ar absenoldeb mabwysiadu, ni allwch wneud cais am y plentyn rydych ar wyliau amdano oni bai eich bod yn mynd yn ôl i'r gwaith o fewn 31 diwrnod i'r dyddiad y gwnaethoch gais am y tro cyntaf.

*Nid yw'r ddogfen hon wedi'i chynllunio fel rhestr gynhwysfawr o gymorth ariannol, ni ellir ein dal yn gyfrifol am gywirdeb y wybodaeth hon na chynnwys dolenni allanol. Cynghorir y rhai sy'n ei ddefnyddio i gymryd camau rhesymol i ystyried eu cynnwys cyn gweithredu arno. Lluniwyd y ddogfen ym mis Rhagfyr 2020.*

Os yw eich [patrwm gweithio wedi newid oherwydd coronafeirws \(COVID-19\)](#), efallai y byddwch yn dal i allu cael Gofal Plant Di-dreth. I weld a ydych gymwys ac i wneud cais, ewch i: <https://www.gov.uk/tax-free-childcare>

### **Cynnig Gofal Plant Cymru**

Cynigir hyd at 30 awr o addysg a gofal plant ar y cyd i rieni cymwys i blant rhwng 3 a 4 oed, sy'n gweithio, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Bydd y 30 awr yn cynnwys cyfuniad o'r Feithrinfa Cyfnod Sylfaen presennol (12.5 awr) ar agor i bob plentyn 3 a 4 oed a'r gofal plant ychwanegol a gyllidir (17.5 awr) i deuluoedd cymwys. Yn ystod y gwyliau ysgol bydd ond yn cynnwys 30 awr o ofal plant a ariennir, am hyd at 3 wythnos y tymor (9 wythnos ar gyfer y flwyddyn).

Er mwyn gwneud cais, rhaid i chi ennill o leiaf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog byw am 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Mewn teuluoedd dau riant, rhaid i'r ddau riant fod yn gweithio a rhaid i bob riant ennill llai na £100,000 y flwyddyn.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <https://gov.wales/childcare-3-and-4-year-olds> a thudalen we Cynnig Gofal Plant Bro Morgannwg: [www.valeofglamorgan.gov.uk/childcareoffer](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/childcareoffer)

### **Cymorth i gynilo**

<https://www.gov.uk/government/news/savers-to-earn-50p-for-every-1-saved-thanks-to-help-to-save>

Bydd rhieni sy'n gweithio ar incwm isel yn elwa o gyfrif cynilo newydd gan y llywodraeth sy'n cynnig bonws o 50%. Bydd Cymorth i Gynilo yn gwobrwyo cynilwyr gyda 50c ychwanegol am bob £1 a arbedir, sy'n golygu dros 4 blynedd y byddai uchafswm cynilo o £2,400 yn arwain at fonws cyffredinol o £1,200.

---

## **Myfyrwyr**

### **Cyllid Myfyrwyr Cymru - Grant Gofal Plant**

Yn dibynnu ar eich amgylchiadau, gallech gael help ychwanegol tuag at gost gofal plant cofrestredig neu gymeradwy.

Mae'r Grant Gofal Plant (GGP) yn helpu â chostau gofal plant os oes gennych blant dibynnol dan 15 oed (neu dan 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig) mewn gofal plant cofrestredig neu gymeradwy.

Rhaid i chi fod yn astudio ar ddwysedd cwrs o 50% o leiaf i fod yn gymwys ar gyfer GGP.. Ni fyddwch yn gymwys i gael y grant hwn os byddwch chi neu'ch partner yn hawlio elfen gofal plant Credydau Treth Gwaith, Credyd Cynhwysol, grantiau gofal plant a ariennir gan y GIG neu Ofal Plant Di-dreth gan CThEM.

Dewch o hyd i ragor o wybodaeth yma: <https://www.studentfinancewales.co.uk/undergraduate-students/part-time-students/new-students/childcare-grant.aspx>

### **Cronfa Dysgwyr yn ôl Disgresiwn**

Os ydych yn 19 oed neu'n hŷn, ar gwrs addysg bellach ac yn wynebu caledi ariannol, gallech gael Cymorth i Ddysgwyr. Rydych yn gwneud cais i'ch darparwr dysgu (er enghraifft eich coleg) ar gyfer Cymorth i Ddysgwyr, mae faint a gewch yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

*Nid yw'r ddogfen hon wedi'i chynllunio fel rhestr gynhwysfawr o gymorth ariannol, ni ellir ein dal yn gyfrifol am gywirdeb y wybodaeth hon na chynnwys dolenni allanol. Cynghorir y rhai sy'n ei ddefnyddio i gymryd camau rhesymol i ystyried eu cynnwys cyn gweithredu arno. Lluniwyd y ddogfen ym mis Rhagfyr 2020.*

Gall yr arian helpu i dalu am bethau fel llety a theithio, deunyddiau cwrs ac offer a gofal plant; rhaid eich bod yn 20 oed neu'n hŷn i gael help gyda chostau gofal plant.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <https://www.gov.uk/learner-support>

---

## **Rhieni incwm isel a rhieni NEET**

Dysgwch ba gymorth y gallech ei gael gyda chostau gofal plant:

Defnyddiwch y gyfrifiannell hon i ddysgu faint allech chi ei gael tuag at [ofal plant cymeradwy](https://www.gov.uk/childcare-calculator):  
<https://www.gov.uk/childcare-calculator>

### **Credyd Cynhwysol**

Mae Credyd Cynhwysol yn daliad i'ch helpu gyda'ch costau byw. Efallai y byddwch chi'n gallu ei gael os ydych chi ar incwm isel neu'n ddi-waith.

Efallai y byddwch yn gallu hawlio hyd at 85% o'ch costau gofal plant yn ôl os ydych yn gymwys i gael Credyd Cynhwysol; cyfeirir at hyn fel 'elfen gofal plant' Credyd Cynhwysol, er mwyn bod yn gymwys fel arfer bydd angen i chi (a'ch partner os ydych yn byw gyda nhw) naill ai fod yn gweithio - does dim ots faint o oriau rydych chi na'ch partner yn gweithio neu os oes gennych gynig swydd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <https://www.gov.uk/help-with-childcare-costs/universal-credit>

### **Credyd Treth Plant**

Mae Credyd Treth Plant yn fudd-dal sy'n helpu gyda chostau magu plentyn os ydych ar incwm isel, ond mae Credyd Cynhwysol i'r rhan fwyaf o bobl wedi disodli Credyd Treth Plant.

Allwch chi ddim gwneud cais newydd am Gredyd Treth Plant onid ydych chi'n cael y premiwm anabledl difrifol, neu â hawl iddo, wedi ei gael neu wedi cael y premiwm anabledl difrifol yn ystod y mis diwethaf, ac rydych yn dal i fod yn gymwys ar ei gyfer. Os yw eich plentyn yn 16 oed, gallwch hawlio hyd at 31 Awst ar ôl ei ben-blwydd yn 16 oed. Os yw mewn addysg neu hyfforddiant cymeradwy, gallwch hawlio tan ei ben-blwydd yn 20 oed. Os na allwch wneud cais newydd am Gredyd Treth Plant, efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol (neu Gredyd Pensiwn os ydych chi a'ch partner o Oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu drosodd).

Mae'r swm y gallwch ei gael yn dibynnu ar faint o blant sydd gennych ac a ydych yn gwneud cais newydd am Gredyd Treth Plant neu eisoes yn hawlio Credyd Treth Plant. Ni fydd Credyd Treth Plant yn effeithio ar eich Budd-dal Plant a ni allwch hawlio Credyd Treth Plant ond am blant rydych chi'n gyfrifol amdanynt.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <https://www.gov.uk/child-tax-credit>

### **Credyd Treth Gwaith**

Mae Credyd Treth Gwaith wedi'i gynllunio i ychwanegu at eich enillion os ydych yn gweithio ac ar incwm isel. Os ydych yn gweithio nifer penodol o oriau efallai y byddwch yn gallu hawlio swm ychwanegol i helpu i dalu costau gofal plant cymeradwy, cyfeirir at hyn fel 'elfen gofal plant' credydau treth gwaith.

Mae Credyd Cynhwysol wedi disodli Credyd Treth Gwaith i'r rhan fwyaf o bobl. Allwch chi ddim gwneud cais newydd am Gredyd Treth Gwaith onid ydych chi'n cael y premiwm anabledl difrifol, neu â hawl iddo, wedi ei gael neu wedi cael y premiwm anabledl difrifol yn ystod y mis diwethaf, ac rydych yn dal i fod yn gymwys ar ei gyfer. Os na allwch wneud cais newydd am Gredyd Treth Gwaith, efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Cynhwysol (neu Gredyd Pensiwn os ydych chi a'ch partner o Oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu drosodd).

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: <https://www.gov.uk/working-tax-credit>

*Nid yw'r ddogfen hon wedi'i chynllunio fel rhestr gynhwysfawr o gymorth ariannol, ni ellir ein dal yn gyfrifol am gywirdeb y wybodaeth hon na chynnwys dolenni allanol. Cynghorir y rhai sy'n ei ddefnyddio i gymryd camau rhesymol i ystyried eu cynnwys cyn gweithredu arno. Lluniwyd y ddogfen ym mis Rhagfyr 2020.*

## **Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (RhGPCh)**

Nod y project RhGPCh yw helpu i wella rhagolygon cyflogaeth rhieni y mae gofal plant yn rhwystyr iddynt o ran dilyn hyfforddiant neu fanteisio ar gyfleoedd swyddi.

Bydd RhGPCh yn talu am ofal plant tra bo'r rhieni yn dilyn hyfforddiant, ar brofiad gwaith neu'n gwirfoddoli ac yn ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael swydd. Gall PaCE helpu rhieni 25 oed a throsodd nad ydynt mewn cyflogaeth a rhieni ifanc (16-24) nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET).

I gael rhagor o wybodaeth a sut i wneud cais ewch i: <https://gov.wales/parents-childcare-and-employment-pace-project>

## **Cychwyn Iach**

O dan raglen Cychwyn Iach, bydd rhieni'n cael talebau am ddim bob wythnos i'w defnyddio i gael llaeth, ffrwythau a llysiau plaen ffres ac wedi'u rhewi, a llaeth fformiwla ar gyfer babanod. Gallant gael fitaminau am ddim hefyd. Mae menywod sy'n feichiog neu deuluoedd sydd â phlentyn o dan bedair oed ac sy'n derbyn rhai budd-daliadau penodol yn gymwys i gael cymorth o dan y rhaglen Cychwyn Iach. Mae pob menyw sy'n feichiog ac sydd o dan 18 oed yn gymwys – p'un a ydynt yn derbyn budd-daliadau ai peidio.

I gael rhagor o wybodaeth a sut i wneud cais ewch i: [www.healthystart.nhs.uk](http://www.healthystart.nhs.uk)

## **Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn**

Gall menywod gael un taliad o **£500** i helpu tuag at gostau cael plant. Fel arfer, byddwch yn gymwys i gael grant os bydd y ddau bwynt isod yn berthnasol i chi:

1. rydych chi'n disgwyl eich plentyn cyntaf neu rydych chi'n disgwyl mwy nag un plentyn (gefeilliaid er enghraifft) ac mae gennych blant yn barod
2. rydych chi neu eich partner yn derbyn rhai budd-daliadau penodol

Rhaid hawlio'r grant o fewn 11 wythnos cyn dyddiad geni disgwylidig y baban neu o fewn 3 mis ar ôl ei eni.

I gael rhagor o wybodaeth a sut i wneud cais ewch i: <https://www.gov.uk/lwfans-mamolaeth>

## **Dolenni Defnyddiol**

**Cymorth Cyngor Ariannol gyda Chostau Gofal Plant -**

<https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/help-with-childcare-costs>

**Gwasanaeth Cynghori Ariannol Cael Babi -**

<https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/categories/having-a-baby>

**GOV.UK Cymorth Ariannol Plant -** <https://www.gov.uk/browse/childcare-parenting/financial-help-children>

**GOV.UK Cyfrifiannell Costau Gofal Plant -** <https://www.gov.uk/childcare-calculator>

**GOV.UK Dewisiadau Gofal Plant -** <https://www.childcarechoices.gov.uk/> (cliciwch ar Gymru nid Lloegr)

**Cynnig Gofal Plant ym Mro Morgannwg –** [www.valeofglamorgan.gov.uk/childcareoffer](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/childcareoffer)

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro -** [www.valeofglamorgan.gov.uk/fis](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/fis)

*Nid yw'r ddogfen hon wedi'i chynllunio fel rhestr gynhwysfawr o gymorth ariannol, ni ellir ein dal yn gyfrifol am gywirdeb y wybodaeth hon na chynnwys dolenni allanol. Cynghorir y rhai sy'n ei ddefnyddio i gymryd camau rhesymol i ystyried eu cynnwys cyn gweithredu arno. Lluniwyd y ddogfen ym mis Rhagfyr 2020.*